**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar Oblygiadau Ariannol y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)

Hydref 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8026
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Finance.Comm@wales.gov.uk



© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar Oblygiadau Ariannol y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)

Hydref 2010

## Y Pwyllgor Cyllid

Cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid yw sicrhau y craffir yn briodol ar gyllideb a gwariant Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Ombwdsmon, y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r gwahanol Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff GIG.

Yn gyffredinol, mae gan y Pwyllgor dair prif swyddogaeth:

– ystyried cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad a chyflwyno adroddiad arnynt;
– ystyried yr wybodaeth ariannol a gyflwynir gyda Mesurau Cynulliad, a lle bo'n briodol, cyflwyno adroddiad arni;
– ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant y Llywodraeth neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru, neu sy'n effeithio ar y gwariant hwnnw.

## Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007. Manylir ar ei bwerau yn Rheol Sefydlog 14 Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r rhain ar gael yn: **www.cynulliadcymru.org**.

## Aelodau'r Pwyllgor



**Angela Burns (Cadeirydd)**
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Plaid Geidwadol Cymru



**Lorraine Barrett**
De Caerdydd a Phenarth
Llafur



**Peter Black**
Gorllewin De Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Andrew Davies**
Gorllewin Abertawe
Llafur



**Chris Franks**
Canol De Cymru
Plaid Cymru



**Brian Gibbbons**
Aberafan
Llafur



**Ann Jones**
Dyffryn Clwyd
Llafur



**Nick Ramsay**
Sir Fynwy
Plaid Geidwadol Cymru



**Janet Ryder**
Gogledd Cymru
Plaid Cymru

**Adroddiad ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)**

<u>Dyfyniadau o'r Rheolau Sefydlog:</u>

*14.2 Caiff y Pwyllgor [Cyllid] hefyd ystyried y canlynol ac, os yw'n gweld yn dda, gyflwyno adroddiadau arnynt:*
*(i) gwybodaeth ariannol yn y memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd â Mesurau Cynulliad arfaethedig;*

……………………………………………………………..

*23.18 Ar yr un pryd ag y bydd Aelod yn cyflwyno Mesur arfaethedig, rhaid hefyd gosod Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid iddo:*

*(vi) nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:*

*(a) unrhyw gostau gweinyddol, costau cydymffurfio a chostau eraill y byddai darpariaethau'r Mesur arfaethedig yn arwain atynt;*
*(b) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r costau hynny godi; ac*
*(c) lle y byddai'r costau'n syrthio;*

## <u>Cyflwyniad</u>

1. Trafododd y Pwyllgor Cyllid y Mesur arfaethedig yn ei gyfarfod ar 30 Medi 2010. Yn anffodus, oherwydd salwch, nid oedd yn bosibl i'r Dirprwy Weinidog dros Blant gwrdd â'r Pwyllgor Cyllid y diwrnod hwnnw ac, yn ei absenoldeb, cyflwynodd ei swyddogion y Mesur arfaethedig a chafodd cwestiynau'r Aelodau eu hateb ganddynt. Yn dilyn hynny, ysgrifennodd y Cadeirydd at y Dirprwy Weinidog dros Blant ynghylch nifer o faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy o hyd a daeth y Dirprwy Weinidog i gyfarfod y Pwyllgor ar 14 Hydref i roi rhagor o dystiolaeth lafar.

2. Yn ogystal, trafododd y Pwyllgor Cyllid y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y Dirprwy Weinidog i'r Pwyllgor Cyllid ar 30 Medi a'r llythyr a gafwyd ganddo, dyddiedig 8 Hydref. Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd wedi ystyried yr ymatebion a gafodd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 i'w ymgynghoriad ar y Mesur arfaethedig.

## Cefndir

3. Mae’r Memorandwm Esboniadol yn dweud[1] bod y Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a’r Prif Weinidog i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn) a’i Brotocolau Dewisol, wrth wneud penderfyniadau strategol am sut i arfer swyddogaethau sy'n arferadwy ganddynt. At ddibenion y Confensiwn, ystyr "plant" yw'r rheini sy'n iau na 18 oed.

4. Mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn gwneud darpariaeth gysylltiedig ynghylch:

- paratoi cynllun plant;
- adroddiadau ynglŷn â chydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i’r Confensiwn a’i Brotocolau Dewisol;
- hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol;
- diwygio deddfwriaeth i roi effaith bellach neu effaith well i'r Confensiwn a’i Brotocolau Dewisol; ac
- ymgynghori ar gymhwysiad posibl y Mesur arfaethedig i bobl sydd wedi troi’n 18 oed, ond heb droi’n 25 oed.

## Y costau sy’n gysylltiedig â’r Mesur arfaethedig

5. Mae’r Memorandwm Esboniadol yn nodi’r costau a ganlyn sy’n gysylltiedig â’r Mesur arfaethedig:

**Blwyddyn 1 rhwng Gorffennaf 2010 a Mawrth 2011**

| | **Costau gwirioneddol** | **Costau cyfleoedd** |
|---|---|---|
| Adnodd staff (tîm gweithredu/cydgysylltu canolog yn ogystal â chynghorydd cyfreithiol canolog) i ddatblygu a gweithredu'r cynllun, a phrosesau mewnol. | £209,000 | |
| Datblygu hyfforddiant a dulliau asesu effaith | £145,000 | |
| **Cyfanswm** | **£354,000** | |

[1] Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 1.1

**Blwyddyn 2 rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2012**

| | **Costau gwirioneddol** | **Costau cyfleoedd** |
|---|---|---|
| Staff i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu ac y cydymffurfir ag ef gan gynnwys yr ymgynghoriad ar gynllun y plant | £279,000 | |
| Hyfforddiant cyfreithiol ac arbenigol | £35,000 | |
| Costau cyfleoedd hyfforddi | | £290,000 |
| **Cyfanswm** | **£314,000** | **£290,000** |

**Blwyddyn 3 – parhaus**

| | **Costau gwirioneddol** | **Costau cyfleoedd** |
|---|---|---|
| Staff i sicrhau cymorth, cydymffurfio a monitro a gwerthuso parhaus | £272,000 | |
| Amcan o'r costau i gyflawni'r gofynion ychwanegol i ystyried y ddyletswydd i roi "sylw dyledus" | | £299,000 |
| **Cyfanswm** | **£272,000** | **£299,000** |

6. Cyfanswm y costau 'gwirioneddol' a ddangosir yw £270,000 - £280,000 y flwyddyn ar gyfer staff y Llywodraeth i weithredu'r cynllun, er bod y rheini ar gyfer blwyddyn 1, sydd yn gyfnod o 9 mis yn unig, wedi'u lleihau mewn modd cymesur. Mewn gwirionedd, gan fod y dyddiad cychwyn, sef Gorffennaf 2010 wedi mynd heibio, efallai y bydd yn rhaid addasu'r ffigurau hyn ymhellach. Yn ogystal, mae costau 'gwirioneddol' o £180,000 ar gyfer hyfforddi dros y ddwy flynedd gyntaf. Ar ben hynny, bydd costau 'cyfleoedd' o tua £290,000 - £300,000 ym mlynyddoedd 2 a 3.

**7.** Yn ei lythyr dyddiedig 8 Hydref, dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y cyllid ar gyfer y £180,000 wedi cael ei gynnwys yng nghyllideb yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac nid oedd yn rhagweld y byddai hyn yn effeithio ar weithgareddau unrhyw raglenni eraill.

## Costau eraill

### Ymgynghori ar y cynllun plant

8. Yn ei lythyr,[2] dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor mai un o brif dasgau tîm polisi canolog y Llywodraeth fydd datblygu a chyhoeddi'r cynllun ac ymgynghori arno. O ganlyniad, mae'r costau datblygu wedi'u cynnwys yn nyraniad y tîm canolog. Yn y sesiwn dystiolaeth flaenorol,[3] dywedodd y swyddogion wrth y Pwyllgor Cyllid bod y costau ar gyfer yr holl waith hwn wedi'u cynnwys yn nyraniad y tîm gweithredu.[4] Dywedasant nad oeddent wedi cynllunio ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol.

### Estyn y Mesur i gynnwys pobl 18 – 24 oed

9. Dywedodd swyddogion y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor Cyllid[5] nad oedd ganddynt unrhyw fanylion ynghylch sut y byddent yn estyn y Mesur arfaethedig i gynnwys pobl 18-24 oed. Byddai angen datblygu cynllun â rhanddeiliaid ac ymgynghori arno. Yn dilyn hynny, byddai dadansoddiad yn cael ei gynnal a byddai opsiynau'n cael eu llunio. Yn y cam hwn, gellir dechrau llunio'r costau. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid ydynt mewn sefyllfa i gostio'r opsiynau hyn oherwydd nid ydynt yn gwybod beth ydynt.

10. Roedd yr Aelodau'n pryderu y byddai cynnwys y pŵer i wneud estyniad mor radical â hwn yn arwain at awdurdodi gwariant sylweddol yn y dyfodol na chafwyd asesiad ariannol blaenorol ar ei gyfer; sef 'siec wag', yn ei hanfod. Er ei bod yn bosibl y gallai'r Pwyllgor dderbyn sicrhad y Llywodraeth bresennol ynghylch ei bwriadau, y mae'n bwysig[6] peidio ag anghofio y gallai Llywodraeth yn y dyfodol ddefnyddio'r pwerau mewn ffordd na fwriadwyd eu defnyddio erioed. Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Dirprwy Weinidog ei fod ar ddeall y byddai'n rhaid i'r Gweinidogion gyhoeddi gorchymyn ac ymgynghori arno cyn estyn y darpariaethau i bobl 18-24 oed[7]. Ychwanegodd ei fod yn ystyried defnyddio'r weithdrefn uwchgadarnhaol o hyd. Nid oedd yn cytuno[8] bod caniatáu estyniad o'r fath yn golygu ei fod yn wystl i ffawd mewn unrhyw ffordd.

---

[2] Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-16-10(p2b), *Goblygiadau Arianol y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) – Tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol gan y Dirprwy Weinidog dros Blant,* 14 Hydref 2010
[3] Cofnod y Trafodion p219, 30 Medi 2010, y Pwyllgor Cyllid
[4] Cofnod y Trafodion p222, 225-226, 30 Medi 2010, y Pwyllgor Cyllid
[5] Cofnod y Trafodion p190, 14 Hydref 2010, y Pwyllgor Cyllid
[6] Cofnod y Trafodion p186, 14 Hydref 2010, y Pwyllgor Cyllid
[7] Cofnod y Trafodion p187, 14 Hydref 2010, y Pwyllgor Cyllid
[8] Cofnod y Trafodion p211, 14 Hydref 2010, y Pwyllgor Cyllid

11. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y byddai unrhyw orchmynion a gyflwynir o dan y Mesur arfaethedig yn ddarostyngedig i asesiad effaith rheoleiddiol. Fodd bynnag, nododd yr Aelodau[9] nad oes gofyniad o dan y Rheolau Sefydlog i unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol a gynhelir ddod gerbron y Pwyllgor Cyllid i'w ystyried yn llawn, Fodd bynnag, mater i'r Pwyllgor Busnes yn hytrach nag i'r Llywodraeth yw hwn.

**Yr effaith ar gyrff cyhoeddus eraill**

12. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi unrhyw amcan o'r costau a drosglwyddir i gyrff cyhoeddus eraill o ganlyniad i'r Mesur arfaethedig. Yn ei lythyr i'r Pwyllgor,[10] dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r Gweinidogion yn cael cyngor ar sail achosion unigol mewn perthynas â phob penderfyniad strategol ac y byddai'n rhaid mesur y rhain yn erbyn ffactorau eraill, gan gynnwys pa adnoddau sydd ar gael. Yn ei dystiolaeth lafar,[11] dywedodd y Dirprwy Weinidog nad oedd unrhyw beth yn y Mesur arfaethedig sy'n cael gwared ar weithdrefnau sefydledig y Cynulliad ar gyfer ymgynghori â sefydliadau sy'n bartneriaid a sefydliadau eraill, a fydd yn parhau fel o'r blaen.

**Gofyniad i gyflwyno adroddiad**

13. Er mwyn gwneud y mwyaf o arbedion maint, dywedodd y swyddogion wrth y Pwyllgor Cyllid[12] y byddant yn cyflwyno adroddiad bob pum mlynedd i gyd-fynd ag adroddiadau ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Bydd yr adroddiadau'n edrych ar y buddiannau sy'n deillio o'r Mesur arfaethedig, ond bydd hyn yn cynnwys costau cyhyd ag y bo'n bosibl eu cyfrifo yn unig. Nid oeddent yn credu y gallent ddweud â sicrwydd beth yw costau darpariaethau'r Mesur arfaethedig.

**Dyletswydd i hybu gwybodaeth am y Confensiwn a dealltwriaeth ohono**

14. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol i'r Mesur arfaethedig yn nodi unrhyw gostau ar gyfer y ddyletswydd hon ond mae'n nodi bod lefelau

---

[9] Cofnod y Trafodion p213-223, 14 Hydref 2010, y Pwyllgor Cyllid

[10] Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-16-10(p2b), *Goblygiadau Arianol y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) – Tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol gan y Dirprwy Weinidog dros Blant,* 14 Hydref 2010

[11] Cofnod y Trafodion p161, 14 Hydref 2010, y Pwyllgor Cyllid

[12] Cofnod y Trafodion p173, 14 Hydref 2010, y Pwyllgor Cyllid

gwybodaeth am y confensiwn a dealltwriaeth ohoni yn isel yng Nghymru.[13] Dywedodd y swyddogion wrth y Pwyllgor Cyllid[14] fod gan y Llywodraeth ymrwymiadau eisoes i ledaenu gwybodaeth i blant ac roedd am i'r math hwn o waith ddatblygu mewn ffordd sy'n cynnwys y Confensiwn. Yn ei hanfod, roeddent yn ei brif-ffrydio. Yn ei bapur i'r Pwyllgor,[15] dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y Mesur arfaethedig yn rhoi statws ffurfiol i'r ymrwymiadau blaenorol o dan erthygl 42 o'r Confensiwn a'r rhaglen waith sy'n cael ei datblygu o dan gynllun gweithredu 'Cyrraedd y nod' y Confensiwn, gyda chyllid o tua £300,000 yn cael ei neilltuo ar gyfer y gwaith hwn ar hyn o bryd.

**Cyllid ar gyfer y Mesur**

15. Bydd y costau 'gwirioneddol' sy'n gysylltiedig â'r Mesur yn cael eu talu o gyllideb yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau drwy'r broses ddyrannu 'arferol'. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor Cyllid[16] nad oedd yn gallu dweud a fyddai rhaglenni eraill yn dioddef o ganlyniad i ailgyfeirio'r adnoddau ar eu cyfer i'r Mesur arfaethedig. Dywedodd fod ganddynt brosesau cyllidebol ar waith ac y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud gan ddefnyddio'r dull arferol a ddefnyddiwyd dros y ddegawd ddiwethaf. Dywedodd y swyddogion hefyd[17] y bydd proses ar gael ar gyfer blaenoriaethu pa raglenni a fydd yn cael eu datblygu yng ngoleuni'r cyllid a neilltuir i'r Adran.

16. Bydd y costau 'cyfleoedd' yn dod o'r hyn a ddisgrifiodd y Dirprwy Weinidog[18] fel ffynhonnell sydd ychydig yn fwy niwlog. Dyma'r costau ar gyfer sicrhau bod staff drwy Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwneud mwy, yn hyfforddi, cydymffurfio â'r ddyletswydd, ac ati. Maent wedi cynnwys y gost o ddatblygu'r hyfforddiant a'r gost o'i ddarparu, a fyddai'n cael ei dalu yn y dyfodol o'r gyllideb ganolog.

[13] Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 3.37
[14] Cofnod y Trafodion p295-7, 14 Hydref 2010, y Pwyllgor Cyllid
[15] Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-15-10(p2a), *Goblygiadau Arianol y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) – Tystiolaeth bellach gan y Dirprwy Weinidog dros Blant,* 30 Medi 2010
[16] Cofnod y Trafodion p250, 14 Hydref 2010, y Pwyllgor Cyllid
[17] Cofnod y Trafodion p251, 14 Hydref 2010, y Pwyllgor Cyllid
[18] Cofnod y Trafodion p240, 14 Hydref 2010, y Pwyllgor Cyllid

**Trafodaeth**

17. Dyma Fesur arfaethedig arall y mae ychydig iawn o wybodaeth ariannol ar ei gyfer am y costau sy'n gysylltiedig ag ef. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd costau 'gwirioneddol' ar raddfa o tua £270,000 - £280,000 y flwyddyn ar gyfer staff y Llywodraeth i weithredu'r cynllun, er y bydd y ffigur yn y flwyddyn gyntaf yn gymharol is gan ddibynnu ar bryd y bydd y gwaith yn dechrau. Yn ogystal, bydd costau 'gwirioneddol' o £180,000 dros y ddwy flynedd gyntaf ar gyfer hyfforddi. Bydd y rhain yn cael eu hariannu o gyllideb yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau drwy'r broses o osod blaenoriaethau'r adran, ond nid yw'n bosibl nodi o ba le yn union y bydd yr arian yn dod.

18. Bydd y Mesur arfaethedig hefyd yn arwain at gostau 'cyfleoedd' o tua £300,000 ym mlynyddoedd 2 a 3.

19. Bydd prif gyllid yr Adran yn talu am holl ofynion 'gwirioneddol' y Mesur arfaethedig, gan gynnwys cyflwyno adroddiadau arno, hybu ymwybyddiaeth ac ymgynghori ar a ddylid estyn ei ddarpariaethau i gynnwys pobl 18-24 oed. Fodd bynnag, ychydig o waith costio penodol a wnaed ar gyfer unrhyw un o'r gweithgareddau hyn, sy'n cael eu gweld fel gweithgareddau craidd y tîm canolog a fydd yn datblygu'r maes polisi hwn. Er na wnaeth y Pwyllgor Cyllid archwilio'r gwaith y bydd yr uned yn ei wneud yn fanwl, nid yw'n gweld unrhyw reswm amlwg dros herio asesiad y Dirprwy Weinidog.

20. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn pryderu hefyd ynghylch mater llawer ehangach, sef y graddau y gallai'r Mesur arfaethedig agor y drws i ystod eang o gamau eraill a fydd, yn eu tro, yn gosod baich ar gyrff eraill y sector cyhoeddus. Y mater pwysicaf yw'r disgwyliad y bydd darpariaeth y Mesur arfaethedig yn cael ei hestyn i gynnwys pobl 18-24 oed ac, er bod darpariaeth yn y Mesur arfaethedig i ymgynghori ar hyn, mae'r Pwyllgor yn pryderu ei fod yn anwybyddu costau ei weithredu os bydd yr ymgynghoriad yn arwain at benderfyniad i gyflwyno estyniad o'r fath. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cydnabod sicrhad y Dirprwy Weinidog y byddai angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol ar orchymyn i weithredu estyniad o'r fath, **ond mae'n nodi bod asesiad ariannol llawer llai manwl yn cael ei gynnal o asesiad o'r fath o'i gymharu â'r asesiad o Fesur arfaethedig ac y mae'n pryderu'n benodol na fyddai asesiad o'r fath o reidrwydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid**.

**21.** Croesawodd y Pwyllgor Cyllid y ffaith fod y Dirprwy Weinidog wedi nodi ei fod yn ystyried ei gwneud yn ofynnol defnyddio'r 'weithdrefn uwchgadarnhaol' ar gyfer hyn ac mae'n **argymell y dylai hyn gynnwys ystyriaeth ffurfiol gan y Pwyllgor Cyllid**.

22. Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn nodi nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn edrych yn fwy eang ar y posibilrwydd y gallai gweithredu'r Mesur arfaethedig arwain at ddyletswyddau a chostau ychwanegol i gyrff cyhoeddus eraill a'i fod yn nodi'n syml y bydd y rhain yn cael eu hystyried ar sail achosion unigol. Byddai'r Pwyllgor Cyllid yn teimlo'n fwy bodlon pe bai tystiolaeth bod y risg a graddau canlyniadau o'r fath wedi cael eu harchwilio o leiaf. **Mae'r Pwyllgor Cyllid unwaith eto'n pryderu bod y Llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth ond heb gynnal dadansoddiad digonol o'i goblygiadau ariannol. Mae hefyd yn pryderu bod y diffyg dadansoddi'n golygu bod risg y ceir canlyniadau anfwriadol o ganlyniad i gymeradwyo'r Mesur arfaethedig hwn.**

**Casgliad**

23. Mae'r Pwyllgor yn tynnu sylw'r Aelodau a'r Cynulliad at yr arsylwadau hyn.

**Angela Burns**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**